Rhybudd

Copïo, Sganio ac Ailddefnyddio Digidol dan amodau'r Drwydded Addysg Uwch Gynhwysfawr

1 Awst 2008 - 31 Gorffennaf 2011

Mae gan y sefydliad hwn drwydded gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint sy'n caniatáu copïo, sganio ac ailddefnyddio digidol detholiadau cyfyngedig o lyfrau printiedig, cylchgronau a chyfnodolion eraill a gyhoeddir naill ai mewn print a/neu ar ffurf electronig (e.e. e-lyfrau/e-gyfnodolion).

Copïo

Cyfyngiadau

Mae'r gyfran o'r gwaith y gellir ei gopïo yn cynnwys:

- un **bennod** gyfan o lyfr
- un **erthygl** gyfan o un rhifyn o gyfnodolyn
- **stori fer** neu **gerdd** (heb fod yn fwy na 10 tudalen o hyd) allan o flodeugerdd
- un **papur** cyfan o un gyfres o drafodion cynhadledd
- un **adroddiad** cyfan o achos unigol o gyfrol o drafodion barnwrol

Neu 5% o unrhyw un uchod, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Tiriogaethau

Mae'r deunydd a drwyddedwyd ar gyfer copïo yn cynnwys llyfrau, cylchgronau a chyfnodolion eraill a gyhoeddir :

- yn y Deyrnas Gyfunol a'r
- Ariannin, Awstralia, Awstria, Barbados, Gwlad Belg, Canada (gan gynnwys Quebec), De Affrica, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hong Kong, Gwlad yr Iâ, Gweriniaeth Iwerddon, Jamaica, Lwcsembwrg, Mecsico, Norwy, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Sbaen, Seland Newydd, Siapan, Singapore, Sweden, y Swistir, Taiwan (Gweriniaeth Tseina), Trinidad a Tobago a'r UDA (fel y cyhoeddir ar wefan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint o dan y pennawd 'Tiriogaethau Rhyngwladol' ac yr ychwanegir ati o bryd i'w gilydd)

ac eithrio'r rhai a restrir yn y **'Rhestr o Gategorïau a Gweithiau Eithriedig'** (fel y cyhoeddir ar wefan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint) a'r rhai a gyhoeddir gan gyhoeddwyr a restrir yn **'Rhestr o Gyhoeddwyr Eithriedig yr Unol Daleithiau'**(fel y cyhoeddir ar wefan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint)

Cwrs Astudio

Dylid ond dosbarthu copïau lluosog i fyfyrwyr a staff sydd yn ymwneud â **Chwrs Astudio** penodol ; mae Cwrs Astudio yn cyfeirio at unrhyw ran o raglen astudiaeth myfyriwr sydd, at ddibenion arholiadau a/neu asesiad, yn uned ar wahân a hunangynhwysol.

Sganio/Ailddefnyddio Digidol

Y mae yna amrywiol oblygiadau yn gysylltiedig â chreu a dosbarthu Copïau Digidol (y rhai a sganiwyd neu gopïau o ddeunydd digidol); ceir eglurhad manwl o'r rhain yn y Canllawiau ar gyfer Defnyddwyr (gweler isod). Un o'r oblygiadau yw bod yn rhaid i bob Copi Digidol sy'n cael ei ddosbarthu gael ei awdurdodi gan **Unigolyn a Enwebwyd** – aelod o'r staff academaidd neu weinyddol a apwyntiwyd i'r perwyl hwnnw. Ni chaniateir i aelodau staff sydd heb eu hapwyntio yn unigolion a enwebwyd, na myfyrwyr, sganio o dan amodau'r drwydded hon. **Pe baent yn gwneud hynny – a heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig y sawl sy'n dal yr hawlfraint – fe allent eu gosod eu hunain a'r sefydliad hwn yn agored i'r honiad o dorri deddf hawlfraint.** Argymhellir yn gryf eich bod yn cysylltu â'ch Cydlynydd Trwyddedu i holi ynglŷn â threfniadau cynhyrchu Copi Digidol dan amodau'r Drwydded

Eich cydlynydd trwyddedu yw:_____

Teitl Swydd:_____ Adran:_____

Rhif Ffôn:_____ e-bost:_____

Gwybodaeth bellach

Mae copïau ychwanegol o'r rhybudd hwn, ynghyd â chopïau o'r 'Canllawiau ar gyfer Defnyddwyr', 'Rhestr o Gategorïau a Gweithiau Eithriedig' a'r Rhestr o Gyhoeddwyr Eithriedig yn yr UDA' ar gael ar wefan CLA ar www.cla.co.uk

Canllaw yn unig yw'r rhybudd hwn. Noder nad yw'n cymryd lle telerau ac amodau'r Drwydded – os oes gwrthdaro rhwng y ddwy, amodau'r Drwydded fydd drech.

Awst 2009